# Memorandwm Esboniadol: Bil Bwyd (Cymru)

## Teitl arfaethedig y Bil

1. Teitl arfaethedig y Bil yw y Bil Bwyd (Cymru) ('y Bil').

## Amcan(ion) polisi arfaethedig y Bil[1]

2. Diben y Bil yw sefydlu system fwyd fwy cynaliadwy yng Nghymru i wella diogelwch bwyd, gwella lles economaidd-gymdeithasol ymhlith pobl Cymru a chynnig mwy o ddewis i ddefnyddwyr.

3. Mae'r system fwyd yn ganolog i ffyniant economaidd-gymdeithasol Cymru yn awr ac yn y dyfodol. Er bod yna gysylltiad annatod rhwng cynhyrchu a bwyta bwyd a systemau ehangach y DU ac yn fyd-eang, mae gan y sector yng Nghymru ran sylfaenol i'w chwarae wrth helpu i greu Cymru sy'n fwy cyfartal, yn iachach ac yn wyrddach. Mae rhai o'r materion mwyaf sy'n wynebu Cymru – megis tlodi ac anghydraddoldeb, gordewdra a diffyg maethiad, a newid hinsawdd – wedi gwaethygu yn sgil pandemig COVID-19. Mae trafferthion parhaus yn y gadwyn gyflenwi hefyd wedi tynnu sylw at yr angen am system fwyd fwy gwydn, ac mae'r problemau hyn yn cyfyngu ar y dewis sydd gan ddefnyddwyr. Mae'r trafferthion hyn yn rhoi cryn straen ar Lywodraeth Cymru, yn ogystal â gwasanaethau cyhoeddus a chymunedau.

4. Gan hynny, mae'r cynnig hwn yn ceisio datblygu fframwaith cyfannol, cydlynol y gellir ei ddefnyddio wrth ddatblygu polisi bwyd yn y dyfodol. Byddai'r fframwaith yn gyfle i gyrff cyhoeddus a llunwyr polisi gydweithio, ac yn gyfle i ddod â chynhyrchwyr a defnyddwyr bwyd ynghyd. Wrth wneud hynny, byddai'r fframwaith yn ceisio sicrhau bod polisïau'n ystyried sut y gall y system fwyd ymateb i rai o heriau economaidd-gymdeithasol Cymru ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

[1] Fel sy'n ofynnol yn ôl Rheol Sefydlog 26.91B, rwyf o'r farn bod yr amcan polisi hwn yn gyson â'r hyn a nodwyd yn y wybodaeth a gyflwynwyd gennyf cyn y balot. O gymharu â'r wybodaeth a gyflwynwyd cyn y balot, mae'r wybodaeth ychwanegol o dan 'Amcanion Polisi y Bil' wedi ei darparu er mwyn nodi'n gliriach i'r Aelodau beth yw fy syniadau ynghylch sut y gellid cyflawni'r amcan polisi.

5. Bydd y Bil arfaethedig yn helpu Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill i gyflawni eu dyletswyddau fel y'u hamlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ('Deddf 2015').[2] Bydd nodau'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil yn canolbwyntio ar gyflawni'r saith nod llesiant, a byddant yn defnyddio Deddf 2015 i ennyn dull mwy cydlynol wrth ddatblygu polisi bwyd yng Nghymru.

6. Bydd y Bil arfaethedig hefyd yn sicrhau bod y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer y system fwyd yng Nghymru yn gyfredol â datblygiadau mewn rhannau eraill o'r DU ac nad yw'n gosod cynhyrchwyr a defnyddwyr bwyd yng Nghymru dan anfantais. Mae datblygiadau polisi diweddar yn cynnwys:

    - Mae Llywodraeth yr Alban wedi cyhoeddi ei *Bil Cenedl Bwyd Da (Yr Alban),* a gyflwynwyd gerbron Senedd yr Alban ar 7 Hydref 2021[3]. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion yr Alban ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol greu Cynlluniau Cenedl Bwyd Da, a bydd yn cefnogi uchelgais y Llywodraeth i'r Alban ddod yn 'Genedl Bwyd Da'. Bydd y cynlluniau hyn yn nodi'r prif ganlyniadau sydd i'w cyflawni mewn perthynas â materion yn ymwneud â bwyd, y polisïau sydd eu hangen i wneud hyn a'r dangosyddion neu fesurau eraill sydd eu hangen i asesu'r cynnydd a wneir. Bydd y Bil yn ystyried ymhellach a oes angen corff statudol.
    - Yn ddiweddar, comisiynodd Llywodraeth y DU adroddiad annibynnol, o'r enw '*National Food Strategy*', dan arweiniad Henry Dimbleby[4]. Roedd yr adroddiad yn trafod cynhyrchu, marchnata a phrosesu bwyd, ynghyd â gwerthu a phrynu bwyd. Roedd hefyd yn ystyried yr adnoddau a'r sefydliadau sy'n rhan o'r prosesau hyn. Yn dilyn yr adroddiad hwn, mae Llywodraeth y DU wedi dweud ei bod yn bwriadu cyflwyno Papur Gwyn i ymateb yn ffurfiol i'w argymhellion.

[2] Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015,* fel ar 20 Hydref 2021, linc
[3] Senedd yr Alban, *Bil Cenedl Bwyd Da (Yr Alban),* 7 Hydref 2021, linc
[4] Llywodraeth y DU, *'National Food Strategy'*, 25 Gorffennaf 2021, linc

7. Fel y manylir yn fy ngwybodaeth cyn y balot, bydd y Bil yn ceisio deddfu ar gyfer y polisïau cyffredinol a ganlyn:

***Sefydlu Comisiwn Bwyd Cymru***

8. Mae sefydlu Comisiwn Bwyd Cymru ('y Comisiwn') yn rhan allweddol o'r ddeddfwriaeth arfaethedig. Byddai'r Comisiwn yn ail-osod trefniadau llywodraethu'r system fwyd yng Nghymru, a byddai'n cyd-greu ac yn goruchwylio'r gwaith o gyflwyno Strategaeth Fwyd Cymru ochr yn ochr â Gweinidogion Cymru a rhanddeiliaid eraill. Gan hynny, bydd y Comisiwn yn helpu i sicrhau dull mwy cydlynol wrth drafod polisi bwyd Cymru, yn ogystal â dwyn ynghyd wahanol ffrydiau polisi trawsbynciol a chynlluniau presennol (megis y *Cynllun Gweithredu Bwyd a Diod,* a'r *Cynllun Gweithredu COVID-19 ar Fwyd a Diod Cymru*) o dan un fframwaith llywodraethu unedig.

9. Disgwylir y byddai'r Comisiwn yn goruchwylio'r gwaith o gyflwyno Strategaeth Fwyd Cymru, ac yn dwyn partneriaid cyflenwi i gyfrif i sicrhau bod nodau a thargedau polisi yn cael eu cyflawni. Byddai'r Comisiwn hefyd yn defnyddio ei rôl i feithrin capasiti ac arbenigedd polisi yng Nghymru, ac yn gweithio gyda'r sectorau addysg uwch ac addysg bellach i gynnal ymchwil i ffyrdd o ddatblygu'r sector bwyd ymhellach.

10. Bydd cyfansoddiad y Comisiwn yn cael ei ddatblygu ymhellach ar y cyd â rhanddeiliaid - gan gynnwys Llywodraeth Cymru - wrth i'r Bil fynd rhagddo. Er nad yw'r rhestr isod yn un gyflawn, rhagwelir y byddai'r Comisiwn yn cynnwys nifer o randdeiliaid ar draws gwahanol sectorau, megis:

- cynrychiolwyr o'r sector amaethyddiaeth a'r sector bwyd;
- Llywodraeth Cymru sy'n arwain ar bolisi bwyd, gan gynnwys amaethyddiaeth, caffael, iechyd a gofal cymdeithasol, a'r amgylchedd;
- byrddau addysg a byrddau iechyd cyhoeddus;
- cynrychiolwyr cyrff cyhoeddus, megis awdurdodau lleol;

- gweithwyr rheng flaen yn y diwydiant bwyd, megis sefydliadau sy'n gweithio i fynd i'r afael ag ansicrwydd/tlodi bwyd;
- cynrychiolwyr o'r sector amgylcheddol;
- rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb.

11. Yn flaenorol, mae nifer o randdeiliaid wedi galw am sefydliad trosfwaol tebyg fel y cynigir yn y Bil, ond efallai fod eu gofynion polisi penodol hwy wedi bod yn wahanol i'r rhai a drafodir yn y ddogfen hon. Mae'r rhain yn cynnwys Cynghrair Polisi Bwyd Cymru[5], yn ogystal â'r adroddiad diweddar gan y Sefydliad Ymchwil Mannau Cynaliadwy ym Mhrifysgol Caerdydd, '*A Welsh Food System Fit for Future Generations'*.[6]

Gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio Strategaeth Fwyd Cymru

12. Bydd y ddarpariaeth hon yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gydweithio â rhanddeiliaid eraill i lunio Strategaeth Fwyd Cymru. Gellir cyhoeddi'r strategaeth hon yn flynyddol, neu dros gyfnod hirach o amser, a bydd yn gweithredu fel y fframwaith trosfwaol strategol sy'n integreiddio polisïau sy'n ymwneud â'r system fwyd ar draws sawl adran o Lywodraeth Cymru. Bydd y cynllun hwn yn creu strategaeth gyfannol sy'n cydnabod natur ryng-gysylltiedig nifer o faterion cymdeithasol y mae cymunedau Cymru yn eu hwynebu. Bydd y cynllun hefyd yn canolbwyntio ar faterion economaidd, megis hyrwyddo twf cynaliadwy'r sector bwyd i greu swyddi a denu buddsoddiad, ac i sicrhau bod cynhyrchwyr bwyd lleol cynaliadwy yn gallu manteisio ar gymorth a chymhellion digonol. Byddai hyn yn cysylltu â nodau Bil Amaeth arfaethedig Cymru[7], ond byddai'r Bil Bwyd (Cymru) yn eistedd ochr yn ochr â'r ddeddfwriaeth honno ac yn cynnig persbectif ehangach i'r system fwyd gyffredinol yng Nghymru.

---

[5] Cynghrair Polisi Bwyd Cymru, *Maniffesto 2021,* Tachwedd 2020, t.2, linc
[6] Sefydliad Ymchwil Mannau Cynaliadwy, *'Welsh food system fit for future generations*', Mawrth 2020, linc
[7] Llywodraeth Cymru, *Papur Gwyn Amaeth (Cymru),* Rhagfyr 2020, linc

13. Mae'r polisi hwn yn ymateb i bryderon ynghylch bylchau yn fframwaith polisi presennol Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, mae'r adroddiad diweddar gan y Sefydliad Ymchwil Mannau Cynaliadwy ym Mhrifysgol Caerdydd, *'A Welsh Food System Fit for Future Generations*', yn dadlau nad yw'r Cynllun Gweithredu Bwyd presennol yn darparu strategaeth system fwyd gynhwysfawr yng Nghymru ar gyfer y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol.[8] Yn y cyfamser, er bod Llywodraeth Cymru yn y broses o ddiweddaru ei Chynllun Gweithredu Bwyd, mae dogfen ymgynghori'r Llywodraeth yn datgan nad cynnig ydyw i newid system fwyd gyfannol.[9] Er bod fy nghynnig yn cydnabod natur ryng-gysylltiedig sector bwyd Cymru - sy'n rhyngweithio â sectorau ehangach y DU ac yn fyd-eang - mae'n bwysig cael strategaeth sy'n canolbwyntio ar ddod â'r sector yng Nghymru ynghyd a chymell dull Cymreig wrth ymateb i rai o'r materion sy'n wynebu cymunedau, fel y trafodwyd ynghynt yn y ddogfen hon.

14. Yn flaenorol, mae nifer o randdeiliaid wedi galw am sefydliad trosfwaol tebyg fel y cynigir yn y Bil, ond efallai fod eu gofynion polisi penodol hwy wedi bod yn wahanol i'r rhai a drafodir yn y ddogfen hon. Mae hyn yn cynnwys adroddiad diweddar gan y Sefydliad Ymchwil Mannau Cynaliadwy ym Mhrifysgol Caerdydd, *'A Welsh Food System Fit for Future Generations'.*[10] At hynny, cynhaliodd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig y Bumed Senedd ymchwiliad i *Ailfeddwl am Fwyd.* Yn y ddau adroddiad a luniodd y Pwyllgor - ar gaffael cyhoeddus mewn cysylltiad â bwyd (2018, argymhelliad dau)[11] ac ar brosesu a marchnata bwyd (2019, casgliad un)[12] - argymhellodd y Pwyllgor y dylid cael gweledigaeth fwy strategol, gyfannol ar gyfer bwyd.

---

[8] Sefydliad Ymchwil Mannau Cynaliadwy, *'Welsh food system fit for future generations*', Mawrth 2020, t.15, linc
[9] Llywodraeth Cymru, *Ein huchelgais i ddatblygu'r sector bwyd a diod yng Nghymru ymhellach,* Awst 2019, t.6, linc
[10] Sefydliad Ymchwil Mannau Cynaliadwy, *'Welsh food system fit for future generations*', Mawrth 2020, linc
[11] Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig, *Ailfeddwl am Fwyd: caffael cyhoeddus yng Nghymru,* Mai 2018, linc
[12] Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig, *Ailfeddwl am Fwyd: brandio a marchnata bwyd,* Mai 2018, linc

*Cyflwyno Cynlluniau Bwyd Cymunedol*

15. Byddai'r ddarpariaeth hon yn darparu system fwyd fwy cynaliadwy a lleol, gan ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a gwasanaethau cyhoeddus eraill megis byrddau iechyd lleol ac awdurdodau addysg lleol ddatblygu cynlluniau bwyd cymunedol i atgyfnerthu prosesau caffael cyhoeddus a chreu gwell seilwaith i gysylltu cynhyrchwyr a defnyddwyr bwyd.

16. Byddai cynlluniau bwyd cymunedol yn amcanu i roi hwb i'r sector bwyd a diod yng Nghymru drwy gryfhau gwydnwch cadwyni cyflenwi lleol, creu cyfleoedd economaidd newydd mewn cymunedau drwy sicrhau bod cyrff cyhoeddus lleol yn caffael mwy o fwyd wedi ei gynhyrchu yn lleol, a gwella'r amgylchedd lleol drwy ganolbwyntio ar gynhyrchu cynnyrch mwy cynaliadwy. Gallai hefyd edrych ar ffyrdd o wella iechyd cyhoeddus ar lefel leol, gan gynnwys rhaglenni cymorth wedi'u teilwra ar gyfer y rhai sy'n wynebu risg o dlodi bwyd a diffyg maethiad.

17. Byddai cynlluniau bwyd cymunedol yn adeiladu ar yr arfer da sydd eisoes yn digwydd ledled Cymru, ac yn annog cymunedau lleol eraill i ystyried sut y gallant gryfhau'r cysylltiad rhwng cynhyrchwyr a defnyddwyr yn eu hardal. Er enghraifft, mae'r *Cynllun Bwyd Cynaliadwy ar gyfer Caerdydd*[13] yn amcanu i gefnogi mentrau tyfu lleol a datblygu cynllun bwyd yng nghanol y ddinas. Mae hefyd yn amcanu i ddathlu diwylliant bwyd Caerdydd, mynd i'r afael â phroblemau iechyd ac anghydraddoldeb, a chyfrannu at ostwng ôl troed carbon y ddinas. Mae *Cynllun Gweithredu Cyngor Sir Fynwy ar Ddatblygu Bwyd* yn ceisio cynnig mwy o gyfleoedd cyflogaeth lleol a chreu cyfoeth, ynghyd â lleihau milltiroedd bwyd amgylcheddol.[14]

18. Wrth gyflwyno'r polisi hwn, rwy'n nodi bod y *Rhaglen Lywodraethu* a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru yn datgan y bydd y

---

[13] Bwyd Caerdydd, *Cynllun bwyd cynaliadwy ar gyfer Caerdydd,* cyrchwyd ar 21 Hydref 2021, linc
[14] Cyngor Sir Fynwy, *Cynllun gweithredu datblygu bwyd,* Gorffennaf 2021, linc

Llywodraeth yn datblygu Strategaeth Bwyd Cymunedol Cymru yn ystod tymor y Senedd hon.[15] Fodd bynnag, byddai fy nghynnig i yn dod o fewn y fframwaith a osodir gan Strategaeth Fwyd Cymru, yn hytrach na bod yn strategaeth annibynnol. O'r herwydd, byddai'r cynigion a nodir yn y Bil yn sicrhau bod yna gysylltiadau uniongyrchol rhwng cynlluniau bwyd lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, gan sicrhau bod strategaeth bolisi ehangach sy'n gydlynol.

***Ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyflwyno adroddiad blynyddol ar gynhyrchu bwyd***

19. Nod hyn yw sicrhau bod Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill, yn ogystal â chynhyrchwyr a defnyddwyr bwyd, yn gallu dadansoddi'n glir ganlyniadau Strategaeth Fwyd Cymru, yn ogystal â chynlluniau bwyd lleol. Byddai'n caniatáu i lunwyr polisi a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb asesu pa mor gynaliadwy a gwydn yw'r sefyllfa yng Nghymru o ran cynhyrchu bwyd (er enghraifft, pa mor dda y byddai cynhyrchwyr yn gallu ymateb i heriau cynyddol fel newid hinsawdd) a pha effaith y bydd hyn yn ei chael ar les pobl Cymru yn y dyfodol. Byddai hyn hefyd yn cysylltu â'r broblem gwastraff bwyd, a byddai'n golygu y gellid asesu'n well ym mhle y mae cynnyrch bwyd Cymru yn diweddu, a pha mor llwyddiannus ydyw wrth gyfrannu at well canlyniadau economaidd-gymdeithasol i gymunedau Cymru.

***Dod â gwastraff bwyd i ben***

20. Gallai'r polisi hwn ei gwneud yn ofynnol i archfarchnadoedd a manwerthwyr eraill roi bwyd diangen sydd heb ei werthu ac sy'n addas i'w fwyta gan bobl i elusennau a banciau bwyd i helpu'r rhai mwyaf agored i niwed yn y gymdeithas. Gallai'r cynnig fod yn debyg i'r un a gyflwynwyd yn Ffrainc[16], a greodd ddeddfwriaeth i atal gwastraff bwyd yn 2016. Mae'r gyfraith hon yn atal archfarchnadoedd rhag dinistrio bwyd na ellir ei werthu, ac mae'r gyfraith hon

---

[15] Llywodraeth Cymru, *Rhaglen Lywodraethu 2021-2026,* Mehefin 2021, linc
[16] Zero Waste Europe, '*France's law for fighting food waste',* Tachwedd 2020, linc

wedi cael ei hymestyn ar sawl achlysur, megis ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr arlwyo masnachol ganiatáu i fynychwyr digwyddiadau fynd â bwyd nas bwytawyd gartref.

21. Byddai'r polisi'n helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei thargedau a'i rhwymedigaethau presennol, yn ogystal â chyfrannu at gyflawni'r nod 'Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang' yn Neddf 2015. Er enghraifft, ar hyn o bryd mae gan Lywodraeth Cymru darged i haneru gwastraff bwyd y gellir ei osgoi erbyn 2025, a'i leihau 60% erbyn 2030, a byddai'r cynnig hwn hefyd yn cysylltu â'r cynigion a amlinellir yn y strategaeth *Mwy nag Ailgylchu*.[17]

22. Mater i Weinidogion Cymru fyddai cyflwyno'r cynnig hwn ar ôl i'r Bil ddod yn Ddeddf. Gallai Gweinidogion Cymru ddechrau'r ddarpariaeth yn ddiweddarach – yn hytrach nag ar adeg derbyn Cydsyniad Brenhinol – pe teimlid nad oedd dulliau gwirfoddol wedi cyflawni'r canlyniadau polisi a ddymunir.

*Cryfhau gofynion labelu bwyd*

23. Byddai'r polisi hwn yn canolbwyntio ar sicrhau bod cynhyrchwyr, gweithgynhyrchwyr a sector lletygarwch Cymru yn cryfhau eu rheolau labelu bwyd i sicrhau bod y bwyd a gynhyrchir yng Nghymru yn cynnwys dynodiad clir i'r perwyl hwnnw. Bydd cynigion manylach yn destun ymgynghoriad drwy gydol datblygiad y Bil i sicrhau bod y polisi'n cyflawni ei nodau, yn ogystal â sicrhau y cydlynir â'r fframweithiau polisi presennol ac y cydymffurfir â Deddf Marchnad Fewnol 2021.

**<u>Manylion unrhyw gefnogaeth a gafwyd ar gyfer y Bil, gan gynnwys manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd</u>**

24. Yn dilyn y bleidlais ar 22 Medi 2021, mae nifer o sefydliadau ac unigolion sydd â diddordeb yn y system fwyd wedi mynegi eu diddordeb a'u cefnogaeth i

[17] Llywodraeth Cymru, *Mwy nag ailgylchu,* Mawrth 2021, linc

egwyddorion ac amcanion polisi cyffredinol y Bil. Ymhlith y rhain mae Undeb Ffermwyr Cymru ac Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru. Mae cefnogaeth drawsbleidiol hefyd i'r cynigion hyn, gydag Aelodau o'r Senedd o wahanol bleidiau gwleidyddol yn nodi eu cefnogaeth bersonol a gwleidyddol i nodau trosfwaol y Bil.

25. Rwyf hefyd yn y broses o ymgynghori'n eang ar amcanion polisi'r Bil, a fydd yn helpu i lywio gwaith ar y cynnig yn y dyfodol. Anfonwyd dogfen ymgynghori at dros 40 o randdeiliaid o bob rhan o'r system fwyd, gan gynnwys cynrychiolwyr y sector amaethyddol, sefydliadau amgylcheddol, sefydliadau iechyd cyhoeddus, cyrff cyhoeddus, academyddion sy’n arbenigo ym maes polisi bwyd, ac unigolion a grwpiau perthnasol eraill. Mae copi o'r ymgynghoriad ar gael ar fy nhudalennau ar y cyfryngau cymdeithasol fel y gall aelodau o'r cyhoedd ymateb i'r cynigion.

<u>Asesiad cychwynnol o unrhyw gostau a/neu arbedion sy'n deillio o'r Bil</u>

26. O dan Reol Sefydlog 26.91A(iv), mae gofyniad am asesiad cychwynnol o unrhyw gostau a/neu arbedion sy'n deillio o'r Bil. Rwyf wedi nodi'r prif opsiynau y byddaf yn eu hystyried o ran sut y bydd y Bil hwn yn cael ei ddatblygu, ond y bwriad fyddai i’r Bil esgor ar gyn lleied o oblygiadau ariannol â phosibl a sicrhau ei fod yn cyflawni ei fwriad datganedig ar yr un pryd.

27. Wrth ddatblygu'r Bil hwn, bydd yn bwysig gweithio gyda rhanddeiliaid i lunio’i ddatblygiad ac i sicrhau'r buddion mwyaf posibl gan effeithio cyn lleied â phosibl ar yr adnoddau sydd ar gael. Felly, byddaf yn ymchwilio i'r effeithiau'n fanylach er mwyn llywio'r asesiad effaith a fydd yn cael ei gyflwyno gyda'r Bil hwn os yw'r bleidlais i roi caniatâd i mi fwrw ymlaen yn llwyddiannus.

28. Dyma'r prif feysydd lle ceir costau a buddion posibl yn sgil cyflwyno'r Bil:

- Datblygu strategaeth fwyd a dangosyddion i fesur y cynnydd a wneir wrth weithredu'r nodau polisi, yn ogystal â chyflwyno adroddiad ar y strategaeth a'i diweddaru yn rheolaidd;
- Sefydlu a chynnal Comisiwn Bwyd, gan gynnwys cefnogi gwaith y Comisiwn yn y dyfodol;
- Ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddatblygu cynlluniau bwyd cymunedol, ar y cyd â chyrff cyhoeddus eraill;
- Gweithredu'r hyn sydd wedi ei gynnwys yn y strategaeth a chynlluniau, gan gynnwys grantiau a chynlluniau cymorth eraill i gefnogi'r gwaith o gyflwyno strategaethau o'r fath;
- Cryfhau'r gofynion o ran safonau labelu bwyd, gan gynnwys costau cysylltiedig posibl i gynorthwyo cynhyrchwyr a gweithgynhyrchwyr i roi'r cynnig hwn ar waith;
- Unrhyw ganlyniadau annisgwyl; a
- Bydd buddion uniongyrchol oherwydd effaith gadarnhaol y Bil wrth i fwyd bwytadwy a gwastraff bwyd na ellir ei osgoi gael eu hailddosbarthu, a bydd hefyd effeithiau cymdeithasol ehangach a allai leihau'r galw ar wasanaethau cyhoeddus.

29. Byddai angen ymchwilio i sut y mae Comisiwn Bwyd yn cael ei sefydlu a'i ddarparu wrth ddatblygu'r Bil hwn. Byddai'r Comisiwn Bwyd yn cyfrannu at y gwaith o baratoi a chyflawni'r strategaeth a'r dangosyddion cenedlaethol, ac felly at ddiben yr amcangyfrif cynnar hwn o gostau, mae'n anodd gwahanu costau staffio oddi wrth gostau Llywodraeth Cymru. Mae Comisiynydd Plant Cymru yn enghraifft o gorff hyd braich a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru sydd â chylch gwaith a llwyth gwaith llawer ehangach. Roedd y cyfrifon diweddaraf, ar gyfer 2020-21, yn nodi gwariant o oddeutu £1.7 miliwn ar gyfer ei swyddfa gyfan. Fodd bynnag, byddai costau'r Comisiwn Bwyd gryn dipyn yn llai na hyn.

30. Wrth baratoi strategaeth genedlaethol ar gyfer Cymru, dygir ynghyd bolisi Llywodraeth Cymru ynghylch bwyd a diod. Er y bydd peth o'r gwaith eisoes wedi'i wneud gan staff Llywodraeth Cymru, bydd hyn yn cael effaith ar adnoddau Llywodraeth Cymru. Byddai'r amcangyfrif gorau o'r costau gweinyddol yn sgil hyn yn debyg i'r costau a oedd ynghlwm wrth ddatblygu cynlluniau cenedl bwyd da yn yr Alban, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2021. Mae'r cynlluniau hynny yn dilyn dull tebyg i'r Bil hwn, ac amcangyfrifir cost untro – sef costau adnoddau staff, ymgynghori a chyhoeddi – rhwng £29,272 a £34,272. Rhagwelir y gallai cynnal gwaith ymchwil ac ymgynghori i ddangosyddion fod yn rhan o'r broses o sefydlu'r strategaeth hon. Amcangyfrifodd Llywodraeth yr Alban hefyd y byddai llunio adroddiadau ar y cynlluniau hyn yn costio tua £7,000, yn bennaf gysylltiedig ag amser staff, felly byddem yn disgwyl costau tebyg i Lywodraeth Cymru pe cyhoeddid adroddiadau blynyddol. Pe baem yn cynnwys adolygiad pum mlynedd gallai hyn ychwanegu costau o tua £12,549 i £17,549 bob pum mlynedd. Gall costau ychwanegol godi wrth ystyried pethau fel yr amser a gymerir gan staff Llywodraeth Cymru i baratoi ac adolygu strategaethau.

31. Yn bennaf, awdurdodau lleol fydd yn paratoi eu cynlluniau bwyd cymunedol eu hunain a chynlluniau bwyd cymunedol gwasanaethau cyhoeddus eraill. Unwaith yn rhagor, mae'r amcangyfrif gorau i'w weld ym Mil Cenedl Bwyd Da Llywodraeth yr Alban, sy'n debyg o ran cwmpas i'r Bil a gynigir yma. Roedd dogfennau ategol y Bil hwnnw yn amcangyfrif y costau ar gyfer 32 o awdurdodau lleol yr Alban, ac mae'r costau hyn wedi'u rhannu â Chonfensiwn Awdurdodau Lleol yr Alban, felly maent wedi cael eu dilysu rywfaint. Rydym wedi lleihau'r amcangyfrifon hyn i adlewyrchu'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Mae hyn yn rhoi ystod cost amcangyfrifedig o tua £570,000 i £630,000 yn y flwyddyn gyntaf, gyda chostau parhaus o tua £145,000 i £155,000 yn sgil costau llunio adroddiadau, gan ddibynnu pa mor aml y gwneir hynny.

32. Bydd yr effaith ar wasanaethau cyhoeddus eraill yn cael ei phennu wrth ddatblygu'r Bil hwn. Yn yr Alban, ni ystyriwyd y byddai ei chynlluniau deddfwriaethol yn arwain at gostau ychwanegol i fyrddau iechyd, cyrff eraill, unigolion a busnesau oherwydd gallai fod gan rai o'r cyrff hyn gynlluniau bwyd lleol eisoes. Fodd bynnag, gall fod rhai mân gostau i gyrff cyhoeddus wrth ddatblygu eu cynlluniau eu hunain, os nad ydynt eisoes wedi'u cynnwys yn y cynllun sydd eisoes wedi ei baratoi gan yr awdurdod lleol.

33. Bydd gweithredu'r hyn sydd wedi ei gynnwys yn y strategaeth a'r cynlluniau yn dibynnu ar beth yn union sydd wedi'i gynnwys ynddynt o'i gymharu â chost cynigion a strategaethau presennol Llywodraeth Cymru. Fel man cychwyn, gellid defnyddio'r costau sy'n cael eu hysgwyddo eisoes gan Lywodraeth Cymru i ariannu'r gwaith o ddatblygu'r strategaethau newydd a gynigir yn y Memorandwm Esboniadol hwn. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, y sector cyhoeddus, y sector gwirfoddol a'r sector preifat i sicrhau bod y gwaith o ddatblygu'r Bil yn esgor ar gyn lleied o gostau â phosibl ac yn sicrhau'r effaith polisi fwyaf posibl.

34. Efallai y bydd rhai costau ychwanegol i awdurdodau lleol wrth orfodi unrhyw ddeddfwriaeth newydd sy'n gosod rhwymedigaeth ar fanwerthwyr i roi cynnyrch diangen i eraill. Byddai'r costau hyn yn cael eu hystyried ymhellach wrth ddatblygu'r cynnig hwn yn y dyfodol. Fodd bynnag, gellid lleihau'r costau hyn pe cyflwynid cynllun gwirfoddol ar draws y sector i asesu cydymffurfiaeth manwerthwyr cyn deddfu'r ddarpariaeth hon. At hynny, bydd bodloni gofynion y Bil yn adeiladu ar strategaethau presennol Llywodraeth Cymru, ac nid yw'n dilyn o reidrwydd y bydd angen symiau sylweddol i fuddsoddi mewn capasiti storio a dosbarthu bwyd. Er enghraifft, yn sgil y ddeddfwriaeth atal gwastraff bwyd yn Ffrainc yn 2016, arsylwodd cynrychiolwyr o sefydliadau cymorth bwyd ac archfarchnadoedd, er gwaethaf cymorth ariannol a logistaidd cyfyngedig, fod faint o roddion a wnaed wedi cynyddu oddeutu 30 y cant yn 2017. Mae'r gyfraith

wedi helpu i wella ansawdd y bwyd a roddir, ac mae cwmnïau wedi cael eu creu sy'n codi tâl ar sefydliadau i gasglu a dosbarthu bwyd, sydd wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol mewn ardaloedd gwledig.

35. Efallai y bydd gweithgynhyrchwyr, cynhyrchwyr a'r sector bwyd yn ysgwyddo costau pellach wrth addasu i ofynion cryfach o ran labelu bwyd. Gallwn weld buddion sylweddol o gryfhau'r gofynion statudol o ran labelu bwyd. Byddaf yn ymgynghori'n eang wrth ddatblygu'r Bil i leihau'r potensial am ganlyniadau anfwriadol ar y sectorau hyn, a gellid cynnig cymorth ariannol i helpu wrth weithredu'r cynnig hwn.

36. Nid yw'n bosibl amcangyfrif buddion cost y Bil nes i'r polisi gael ei ddatblygu. Mae'n amlwg y bydd buddion o ran lleihau gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi, a bydd hyn yn chwarae rôl wrth helpu Cymru i gyflawni ei hymrwymiadau mewn perthynas â newid hinsawdd. Bydd y buddion yn sgil ailddosbarthu bwyd yn bellgyrhaeddol gan gynnwys buddion iechyd cyhoeddus, er enghraifft buddion sy'n gysylltiedig â gostyngiad mewn tlodi bwyd a diffyg maethiad. Gallai labelu cynnyrch lleol yn well arwain at fuddion yng nghynaliadwyedd busnesau bwyd Cymru. Gallai helpu i wella dealltwriaeth o'r budd sydd ynghlwm wrth fwydydd lleol iach. Yn y cyfamser, bydd hyrwyddo cadwyni cyflenwi lleol a chynnyrch cynaliadwy fel rhan o weledigaeth 'o'r fferm i fforc' yn dod â buddion economaidd i gynhyrchwyr, yn ogystal â buddion i'r amgylchedd yn sgil llai o fewnforio cig a bwydydd eraill o wledydd eraill.